# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 25 Tachwedd 2014** |
| Amser: | **09.01 - 10.03** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/870b1af3-d4ef-450a-b00d-1e6fbcdef6f6?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Lindsay Whittle (yn lle Bethan Jenkins)**<br>**Ann Jones (yn lle Joyce Watson)** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins AC, y dirprwywyd ar ei rhan gan Lyndsay Whittle AC, a Joyce Watson AC y dirprwywyd ar ei rhan gan Ann Jones AC.

## 2 Trafod y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2014 - P-04-597 Diogelu dyfodol y Ddraig Ffynci, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru

Trafododd yr Aelodau y sesiwn dystiolaeth a chytunwyd i geisio hwyluso ffordd ymlaen sy'n cynnwys partneriaid fel:

- Plant yng Nghymru
- Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi;
- Comisiynydd Plant Cymru, a
- Chynrychiolydd o Gomisiwn y Cynulliad.

## 3 Deisebau newydd

### 3.1 P-04-602 Personoleiddio Beddau

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- dynnu sylw Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth at y ddeiseb; ac
- anfon sylwadau'r deisebwyr at y Gweinidog, o gofio'r ymrwymiad a wnaeth i edrych ar y mater ymhellach.

### 3.2 P-04-603 Helpu babanod sy'n cael eu geni ar ôl 22 wythnos i oroesi

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am ei farn ar sylwadau'r deisebydd am sail ei deiseb ac, yn benodol, am ei farn ynghylch a ddylai cymorth meddygol gael ei roi i fabanod a anwyd yn fyw ac yn anadlu; a
- gofyn am bapur briffio ymchwil sy'n cymharu'r modd yr ymdrinnir â'r materion hyn yng Nghymru a chenhedloedd eraill o fewn y DU.

### 3.3 P-04-604 Ynghylch diddymu Grwpiau Cyfeirio Cleifion â Diabetes a chanslo cyfarfodydd y Grŵp Cynllunio a Chyflawni Gwasanaethau Diabetig ym Mhowys.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb am y tro cyntaf, a chytunodd i ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn am ei farn ynghylch a yw amcanion y ddeiseb wedi'u cyflawni ai peidio.

### 3.4P-04-605 Achub Ffordd Goedwig Cwmcarn Rhag Cael ei Chau am Gyfnod Amhenodol neu'n Barhaol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1P-04-319 Deiseb ynghylch Traffig yn y Drenewydd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunodd i aros i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y cynllun gan y Gweinidog, yn ôl ei addewid.

### 4.2P-04-393 Grŵp Gweithredu Ffordd Osgoi Llanymynech a Phant

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog yn diolch iddi am y wybodaeth ddiweddaraf ac yn gofyn iddi roi gwybod i'r Pwyllgor am y datblygiadau, ac am yr ymateb gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

### 4.3P-04-416 Gwasanaethau Rheilffyrdd Gogledd-De

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd.

### 4.4P-04-468 Pryderon am Ddiogelwch Ffordd A48 Cas-gwent

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog yn tynnu ei sylw at lythyr y deisebwyr, ac yn benodol at eu pryderon ynghylch yr oedi cyn ymestyn y terfyn cyflymder o 30 milltir yr awr i groesi Pont Afon Gwy.

### 4.5P-04-475 Yn eisiau - Bysiau i Feirionnydd

Gweler y camau gweithredu y cytunwyd arnynt o dan eitem 4.7.

### 4.6P-04-513 Achub gwasanaeth bws X94 Wrecsam/Abermo

Gweler y camau gweithredu y cytunwyd arnynt o dan eitem 4.7.

**4.7P-04-515 Darparu rhagor o arian ar gyfer Gwasanaethau Bysiau Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:
i ysgrifennu at y Gweinidog yn mynegi siom nad oedd ei hateb yn ateb llawer o gwestiynau'r Pwyllgor, a gofyn iddi roi sylw i'r cwestiynau hyn yn awr fel mater o flaenoriaeth.

**4.8P-04-562 Canolfan Etifeddiaeth Caernarfon**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at yr awdurdod lleol a CADW yn gofyn a fyddent yn barod i gwrdd â'r deisebwyr i drafod pa gyfleoedd pellach a allai fod ar gael i fwrw ymlaen â'r cysyniad o Ganolfan Treftadaeth yng Nghaernarfon; ac
- ysgrifennu at Gyngor Tref Caernarfon yn gofyn am eu barn ar y ddeiseb.

**4.9P-04-561 Hyrwyddo rygbi ar lawr gwlad yng Nghymru i annog pobl i gymryd rhan**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:

- i ofyn am ymateb gan Undeb Rygbi Cymru; a
- i gau'r ddeiseb, gan ei bod yn ymddangos bod prif fyrdwn y pryderon a oedd yn sail i'r ddeiseb ynglŷn â materion darlledu, nad ydynt wedi'u datganoli.

**4.10 P-04-397 Cyflog Byw**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:
i aros am ganlyniad cyfarfod y Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ym mis Rhagfyr.

**4.11 P-04-485 Camddefnyddio contractau dros dro yn y sector Addysg Bellach**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:
i aros am ganlyniadau'r adolygiad o'r sefyllfa ym mis Ebrill 2015.

**4.12 P-04-518 Ciniawau ysgol am ddim yn gyffredinol**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:
i gau'r ddeiseb yng ngoleuni ymateb y Gweinidog a phenderfyniad y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf.

### 4.13 P-04-593 Rhoi cyngor i ysgolion ar ymweliadau â Noah's Ark Zoo Farm

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn tynnu sylw at y ddeiseb; a
- chau'r ddeiseb.

### 4.14 P-04-529 Ombwdsmon Asiantaethau Gosod Tai ar gyfer Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:
i gau'r ddeiseb gan fod y Llywodraeth wedi gwneud ei safbwynt ar y ddeiseb yn glir, ac mae wedi cyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn.

### 4.15 P-04-573 Galwad ar Lywodraeth Cymru i Ymchwilio i'r System Lesddaliadau Preswyl yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog ymateb i'r pwyntiau ychwanegol a godwyd gan y deisebydd, ac i'r materion a godwyd mewn gohebiaeth gan Byron Davies AC.

### 4.16 P-04-532 Gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Gweinidog am gael gwybod am y cynnydd a wneir o ran penodi olynydd i Dr Andrew Goodall; a
- gofyn am ymateb gan y byrddau iechyd nad ydynt wedi ymateb i lythyr gwreiddiol y Pwyllgor eto, gan gopïo'r llythyr i'r Gweinidog Iechyd.

### 4.17 P-04-582 Newid Mawr ei Angen i'r Rheolau yn ein Hysgolion o ran Llau Pen a Nedd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd, a phan fydd y sylwadau hyn ar gael
- ystyried tynnu sylw'r Gweinidog at y wybodaeth yn yr ohebiaeth gan 'Hairforce – Lice Assassins' i gael ei sylwadau.

### 4.18 P-04-601 Gwaharddiad Arfaethedig ar Ddefnyddio e-sigaréts Mewn Mannau Cyhoeddus

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:
i ofyn i'r Gweinidog ymateb i sylwadau pellach y deisebydd.

### 4.19 P-04-544 Gwahardd Saethu Gwyddau Talcen-wen yr Ynys Las

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:
i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd.

### 4.20 P-04-577 Adfer Cyllid i'r Prosiect Cyfleoedd Gwirioneddol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunodd i dynnu sylw'r Gweinidog at sylwadau pellach y deisebydd. Yn benodol, at y gwahoddiadau i gwrdd â'r deisebwyr i drafod eu cynnig, ac i sicrhau bod y Gweinidog yn ymwybodol o'r digwyddiad yn y Senedd ar 11 Rhagfyr, sy'n rhan o'r broses o werthuso Cyfleoedd Gwirioneddol.